

Uwch Gynorthwydd dan Hyfforddiant Rhaglen Hyfforddi Trallwysu

Cyflwyniad

Mae rhaglen hyfforddi trallwysu yn cael ei chynnig fel rhan o gynllun Uwch Gynorthwydd dan Hyfforddiant i holl fyfyrwyr meddygaeth blwyddyn olaf Cymru.

Mae'r rhaglen wedi cael ei dylunio i baratoi myfyrwyr ar gyfer heriau allweddol mewn arferion trallwysu y byddant yn eu hwynebu pan fyddant yn dechrau gweithio ar eu rhaglen hyfforddi sylfaenol. Y nod yw rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ymarferol iddynt i gefnogi rheoli cleifion yn ddiogel ac yn briodol ar wahanol gamau yn y broses trallwysu gwaed, ac i atgyfnerthu eu gwybodaeth ddamcaniaethol am drallwysu.

Mae'r cynnwys a gyflwynir yn cynrychioli'r arferion gorau mewn trallwysu, y dylai'r myfyrwyr eu dilyn cyn belled ag y bo modd (yn achos samplau cyn trallwysu, mae'n rhaid iddynt eu dilyn).

Mae'r rhaglen hyfforddi trallwysu yn cynnwys pump 'gorsaf' - mae nodau ac amcanion pob un o'r rhain wedi'u manylu isod.

Nodau ac amcanion

Y tair egwyddor sylfaenol ar gyfer arferion trallwysu diogel

Nod: Galluogi'r myfyrwyr i gymhwyso'r tair egwyddor sylfaenol i'w harferion eu hunain:

- adnabod cleifion positif yn gywir,
- cyfathrebu'n briodol,
- dogfennaeth gyflawn a pherthnasol

Amcanion dysgu: Dylai'r myfyriwr allu:

- Nodi'r achlysuron yn y ffilm pan na chafodd pob un o'r tair egwyddor eu dilyn
- Trafod sgil-efeithiau posib y methiannau hyn

Play Your Cards Right

Nod: Galluogi'r myfyrwyr i gydnabod yr heriau sy'n wynebu labordy trallwysu'r ysbyty wrth ddarparu cydrannau gwaed diogel, mewn modd amserol sy'n briodol i ba mor frys yw'r cais.

Amcan dysgu: Dylai'r myfyrwyr allu:

- Nodi gofynion labelu samplau cyn trallwysu, a dangos ymwybyddiaeth o bolisiau 'dim goddefgarwch' labelu samplau
- Deall y data mae LIMS yn ei storio, a darparu dau sampl gwaed i'w gwirio ar gyfer y grwpiau gwaed ABO.
- Esbonio'r term 'WBIT' (Wrong Blood in Tube), ac arsylwi sut y gellir canfod WBIT neu beidio ar wahanol bwyntiau yn y broses drallwysu.
- Cydnabod eu cyfrifoldeb o ran darparu hanes clinigol digonol, a nodi gofynion arbennig fel rhan o'r cais trallwysu.
- Cydnabod achosion o oedi posibl cyn darparu cydrannau gwaed, fel gofynion ffenoteipio neu ymchwilio i wrthgyrff

Cymryd sampl cyn trallwysu

Nod: Sicrhau bod pob myfyriwr yn rhoi sampl cyn trallwysu yn ddiogel (adnabod claf, cyfathrebu a defnyddio'r ddogfennaeth gywir).

Amcan dysgu: Dylai'r myfyriwr allu:

1. Adnabod y claf yn gywir, labelu sampl gwaed cyn trallwysiad, a chwblhau'r ffurflen *All Wales Transfusion Request*, yn unol â'r asesiad cymhwysedd Sampl Tynnu Gwaed Cyn-trallwysu Cymru Gyfan

Penderfynu trallwysu

Nod: Galluogi'r myfyriwr i wneud penderfyniad rhesymegol i drallwysu, a chynhyrchu awdurdodiad ysgrifenedig ar gyfer trallwysu.

Amcanion dysgu: Dylai'r myfyriwr allu:

1. Adnabod y ffynonellau gwybodaeth a fydd yn llywio'r penderfyniad i drallwysu
2. Trafod y rhesymau am drallwysiad, ac ystyried dewisiadau amgen
3. Rhoi caniatâd y gall y claf dderbyn trallwysiad.
4. Cwblhau'r awdurdodiad ysgrifenedig ar gyfer trallwysu (All Wales Transfusion Record) yn gywir, gan roi ystyriaeth i'r ddos a'r gyfradd briodol

Adwaith Andwyol

Nod: Galluogi'r myfyriwr i gydnabod ac ymateb yn briodol i adwaith trallwysiad

Amcanion dysgu: Dylai'r myfyriwr allu:

1. Adnabod o'r senario sy'n datblygu a'r wybodaeth sydd ar gael, bod adwaith i'r trallwysiad a allai fod yn ddifrifol yn digwydd, a chymryd camau priodol
2. Nodi pa gamau dilynol y byddent yn eu cymryd, a pha ymchwiliadau sydd eu hangen